Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Adolygiad o Wasanaethau Nyrsio Ardal

# Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

**Cyhoeddwyd:** Ebrill 2014

**Cyfeirnod y ddogfen:** 666A2013

# Statws yr adroddiad

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol, y Cod Ymarfer Archwilio a'r Datganiad o Gyfrifoldebau a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar Swyddfa Archwilio Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff) mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol nac i unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru (a, lle y bo'n berthnasol, ei archwilydd penodedig) yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@wao.gov.uk.

Y tîm a gyflawnodd y gwaith oedd Tracey Davies, Kate Febry, Malcolm Latham a Gabrielle Smith.

# Cynnwys

Mae amrywiad anesboniadwy yn y gwasanaeth nyrsio ardal o ran yr adnoddau a ddarperir a'r llwyth gwaith a cheir hefyd wendidau mewn systemau gwybodaeth sy'n ei gwneud yn anodd asesu perfformiad, capasiti a galw.


| | |
|---|---|
| **Adroddiad cryno** | |
| Mae rhai camau cadarnhaol wedi'u cymryd i hyrwyddo gwell dealltwriaeth o wasanaethau nyrsio ardal ond nid yw ffiniau'r rôl yn cael eu deall bob tro ac nid yw cyfleoedd i symleiddio ac integreiddio gofal yn well yn cael eu gwireddu | 5 |
| Mae'r ddealltwriaeth gyfyngedig o'r galw yn ei gwneud yn anodd asesu a oes digon o gapasiti, ac mae'n arwain at amrywiad sylweddol o ran darparu adnoddau a llwyth gwaith anghyson rhwng timau | 6 |
| Mae'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu siartiau llif i wella atgyfeiriadau i nyrsys ardal ond erys problemau o hyd o ran ansawdd a phriodoldeb yr atgyfeiriadau | 6 |
| Mae absenoldeb system wybodaeth yn golygu nad yw'r Bwrdd Iechyd yn gallu asesu'r galw yn effeithiol a phenderfynu ar ei ofynion o ran y gweithlu nyrsio ardal er mwyn llywio'r defnydd o staff | 6 |
| **Atodiadau** | |
| Dull archwilio | 9 |
| Cyflwyno'r canfyddiadau allweddol | 11 |

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

**1.** Mae nyrsys ardal yn chwarae rhan bwysig a hanfodol yn y tîm gofal iechyd sylfaenol a chymunedol, gan ymweld â chleifion yn eu cartrefi eu hunain a darparu gofalu iddynt, a gall hyn gynnwys cartrefi gofal preswyl. Yn ogystal â darparu gofal uniongyrchol i gleifion, mae gan nyrsys ardal hefyd rôl addysgu ac maent yn gweithio gyda chleifion a'u perthnasau i'w helpu i reoli eu cyflwr a'u triniaeth, gan atal pobl rhag cael eu derbyn neu eu hailddwerbyn i'r ysbyty yn ddiangen.

**2.** Gall llwyth achosion cleifion nyrs ardal gynnwys ystod oedran eang gyda chymysgedd sylweddol o broblemau iechyd a chorfforol, gan gynnwys y rhai sy'n dioddef o salwch angheuol. Yn gyffredinol, yr oedrannus a'r bregus yw'r nifer mwyaf o gleifion. Ar gyfer y dyfodol rhagweladwy mae'r galw am wasanaethau nyrsio ardal yn debygol o gynyddu oherwydd y boblogaeth oedrannus gynyddol, arosiadau byrrach yn yr ysbyty a'r symudiad i drin mwy o gleifion, a chanddynt anghenion gofal cymhleth yn aml, yn y gymuned yn hytrach nag yn yr ysbyty.

**3.** Rhwng nawr a 2026, yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (y Bwrdd Iechyd), disgwylir i nifer y bobl 65 oed a throsodd gynyddu 31 y cant[1]. Ynghyd â'r cynnydd hwn, mae'r cysylltiad hysbys rhwng amddifadedd ac iechyd gwael hefyd yn arwain at alwadau ychwanegol gyda lefelau uchel o amddifadedd economaidd-gymdeithasol[2] mewn rhai rhannau o ddalgylch y Bwrdd Iechyd.

**4.** Er mwyn ymateb i'r heriau hyn, mae darparu gofal yn y gymuned yn ei gwneud yn ofynnol cael gweithlu medrus sydd wedi'i gydgysylltu'n briodol, sy'n cael adnoddau priodol ac yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol. Gyda'r galw cynyddol ar wasanaethau a'r cyfyngiadau ariannol a wynebir gan y Bwrdd Iechyd, mae angen cael dealltwriaeth dda o'r gwasanaeth nyrsio ardal, sut y caiff ei ddefnyddio a sut y mae'n cyd-fynd â'r dull cyffredinol o ddatblygu gwasanaethau cymunedol.

**5.** Fodd bynnag, cydnabu'r Bwrdd Iechyd nad oedd ganddo wybodaeth gynhwysfawr i asesu a oedd y gwasanaeth nyrsio ardal yn cael ei leoli a'i ddefnyddio'n effeithiol. Ysgogodd hyn y Bwrdd Iechyd i weithio gyda Swyddfa Archwilio Cymru bryd hynny[3] i gynnal asesiad llinell sylfaen a meincnodi'r gwasanaeth nyrsio ardal, a fyddai'n helpu i fod yn sail i adolygiad o wasanaethau cymunedol ehangach yn unol â datblygiad strategol a gwasanaethau dyfodol clinigol.

---

[1] Llywodraeth Cymru, *Local Authority Population Projections for Wales, 2011-based Variant Projections (SDR 165/2013)*, 2013.

[2] Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, *Proffiliau clwstwr meddygon teulu: Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan,* 2013.

[3] Cyn 1 Ebrill 2014, roedd y term 'Swyddfa Archwilio Cymru' yn golygu Archwilydd Cyffredinol Cymru a'i staff.

**6.** Ar hyn o bryd, mae'r gwasanaeth nyrsio ardal yn cynnwys tua 282 o nyrsys gyda thimau unigol yn gofalu am tua 8,280 o gleifion. Mae'r nyrsys hyn wedi'u trefnu'n 29 o dimau lleol sy'n darparu gofal gyda:

- 15 yn darparu gofal rhwng 8am a 8pm;
- 12 yn darparu gofal ledled Caerffili a Chasnewydd rhwng 9am a 5pm; a
- dau dîm yn darparu gofal 'gyda'r hwyr' rhwng 5pm a 10pm.

**7.** Nod ein hadolygiad oedd ateb y cwestiwn canlynol:

**A yw gwasanaeth nyrsio ardal y Bwrdd Iechyd wedi'i sefydlu'n effeithiol i ddiwallu'r galw am ofal yn y gymuned?**

**8.** Gwnaed y gwaith rhwng mis Mehefin a mis Hydref 2013 ac roedd yn cynnwys ymarfer dyddiadur, adolygu llwyth achosion, arolygon atgyfeirio a gweithdai wedi'u hwyluso, y ceir rhagor o fanylion amdanynt yn Atodiad 1. Oherwydd bod y data wedi'u casglu dros gyfnod byr o wythnos yn unig, mae'n bwysig cofio mai cipolwg yw hyn ac nad yw'n ystyried amrywiadau wythnosol a thymhorol.

**9.** Mae sleidiau'r cyflwyniad, y dystiolaeth a'r casgliadau o'r gwaith archwilio ac allbynnau'r gweithdai i'w canfod yn Atodiad 2. Yn ogystal â'r adroddiad cryno hwn, rhoddwyd pecyn data manwl i'r Bwrdd Iechyd sydd ar wahân i'r adroddiad hwn.

**10.** Ein prif gasgliad o'n gwaith archwilio yw: Mae'r gwasanaeth nyrsio ardal yn cynnwys amrywiad anesboniadwy o ran yr adnoddau a ddarperir a'r llwyth gwaith yn ogystal â gwendidau mewn systemau gwybodaeth, sy'n ei gwneud yn anodd asesu perfformiad, capasiti a galw.
Mae'r tabl canlynol yn rhoi crynodeb o'r canfyddiadau a arweiniodd at y casgliad hwn.

| **Nodau'r gwasanaeth** |
|---|
| **Mae rhai camau cadarnhaol wedi'u cymryd i hyrwyddo gwell dealltwriaeth o wasanaethau nyrsio ardal ond nid yw ffiniau'r rôl yn cael eu deall bob tro ac nid yw cyfleoedd i symleiddio ac integreiddio gofal yn well yn cael eu gwireddu:** |
| • mae Strategaeth Nyrsio a Bydwreigiaeth y Bwrdd Iechyd yn mynegi'n glir y symudiad tuag at fodel integredig o ofal sy'n canolbwyntio ar y gymuned ond nid yw'n glir sut y mae gwasanaethau nyrsio ardal yn cydweddu â'r model hwn ac nid yw cyfleoedd i symleiddio gofal a'i integreiddio'n well yn cael eu gwireddu; |
| • nododd manyleb gwasanaeth ac ymgyrch bosteri gydrannau craidd y gwasanaeth nyrsio ardal, ond mae adolygiad o'r fanyleb yn hirddisgwyliedig a dim ond mewn dwy o'r pum ardal y defnyddir y posteri; ac |
| • mae lle o hyd i wella dealltwriaeth y sectorau gofal sylfaenol ac eilaidd o wasanaethau nyrsio ardal. |

## Y defnydd o nyrsys ardal

**Mae'r ddealltwriaeth gyfyngedig o'r galw yn ei gwneud yn anodd asesu a oes digon o gapasiti, ac mae'n arwain at amrywiad sylweddol o ran darparu adnoddau a llwyth gwaith anghyson rhwng timau:**

- mae patrymau newidiol y gwasanaeth nyrsio cymunedol a'r gwahaniaethau rhwng y ffynonellau amrywiol o wybodaeth am y gweithlu yn ei gwneud yn anodd deall tueddiadau o ran lefelau staffio;
- mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud llawer o waith i ddeall sgiliau ac anghenion hyfforddiant y gweithlu nyrsio ardal;
- ceir dealltwriaeth gyfyngedig o'r galw ac nid yw adnoddau'n cael eu cysoni'n glir ag anghenion y boblogaeth; ac
- mae'r llwyth gwaith wedi'i ddosbarthu'n anghyson rhwng timau nyrsio ardal unigol ond gallai'r galw gael ei reoli'n well gan rai timau nyrsio ardal.

## Rheoli'r galw ac atgyfeirio

**Mae'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu siartiau llif i wella atgyfeiriadau i nyrsys ardal ond ceir problemau o hyd o ran ansawdd a phriodoldeb yr atgyfeiriadau:**

- mae siart llif sy'n nodi meini prawf atgyfeirio wedi'i gynnwys ym manyleb y gwasanaeth nyrsio ardal ond mae atgyfeiriadau amhriodol yn parhau i fod yn gymharol gyffredin yn enwedig mewn rhai ardaloedd;
- nid oes rhestr wirio safonol o'r wybodaeth sydd ei hangen wrth atgyfeirio i wasanaethau nyrsio ardal ac ystyriwyd mai dim ond 58 y cant o atgyfeiriadau cleifion newydd a oedd yn darparu gwybodaeth ddigonol;
- nid oes ffurflen atgyfeirio gyffredin ond mae cerdyn ysgogi i godi ymwybyddiaeth o'r hyn sydd ei angen wedi'i ddatblygu ar gyfer nyrsys ysbytai; ac
- mae rhai arweinwyr timau yn fwy rhagweithiol nag eraill o ran hyrwyddo atgyfeiriadau priodol a gwybodaeth atgyfeirio o safon uchel.

## Gwybodaeth am fonitro perfformiad

**Mae absenoldeb system wybodaeth yn golygu nad yw'r Bwrdd Iechyd yn gallu asesu'r galw yn effeithiol a phenderfynu ar ei ofynion o ran gweithlu nyrsio ardal i er mwyn llywi'r defnydd o staff:**

- nid oes gan y Bwrdd Iechyd system wybodaeth electronig i'w helpu i ddeall anghenion o ran galw a gofal;
- mae'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu dull o fonitro capasiti'r gweithlu ond yn absenoldeb systemau gwybodaeth cynhwysfawr, nid yw'n gallu penderfynu'n effeithiol ar ei ofynion o ran y gweithlu; ac
- yn debyg i weddill Cymru, ceir rhai cyfyngiadau o ran y ffordd y mae'r Bwrdd Iechyd yn asesu ansawdd ei wasanaeth nyrsio ardal.

# Materion i fynd i'r afael â hwy a'r ffordd ymlaen

**11.** Nododd ein gwaith a'r gweithdai dilynol y meysydd allweddol canlynol y dylid mynd i'r afael â hwy er mwyn i'r Bwrdd Iechyd ddarparu gwell gwasanaethau nyrsio ardal i ddiwallu'r galw am ofal yn y gymuned.

**Camau gweithredu'n ymwneud â nodau gwasanaeth**

I ddiwallu'r galw cynyddol ar ofal yn y gymuned, mae angen i'r Bwrdd Iechyd:

- Ddefnyddio canfyddiadau'r adolygiad hwn a gweithio gyda'r holl randdeiliaid allweddol i benderfynu ac egluro rolau a chyfrifoldebau'r gwasanaethau nyrsio ardal yn y ddarpariaeth gwasanaeth cymunedol ehangach. Fel rhan o'r broses hon, achub ar y cyfle i gytuno ar sut y gall gofal yn y gymuned gael ei symleiddio a'i integreiddio'n well. Dylai hyn gynnwys diffiniad a chytundeb clir o ran pwy sydd yn y sefyllfa orau i weithredu fel cydlynydd gofal y claf a phwy sydd yn y sefyllfa orau i ddiwallu anghenion gofal penodol.
- Yn dilyn y gwaith hwn, diweddaru ac ail-lansio'r fanyleb nyrsio ardal i'r holl randdeiliaid allweddol. O fewn y fanyleb hon, cyfeiriadau clir at achosion ble y gall gwasanaethau cymunedol eraill fod yn fwy priodol. Fel rhan o'r broses hon adolygu a diweddaru'r manylebau gwasanaeth ar gyfer gwasanaethau cymunedol eraill megis Timau Adnoddau Cymunedol, Eiddilwch a thimau perthnasol eraill. Bydd hyn yn cynorthwyo gyda darparu mwy o ofal wedi'i symleiddio ac integreiddio a gwella dealltwriaeth atgyfeirwyr o'r gwasanaeth cywir ar gyfer y defnyddiwr.

**Camau gweithredu o ran y defnydd o nyrsys ardal**

Er mwyn cynorthwyo i sicrhau defnyddio effeithiol o adnoddau nyrsio ardal, mae angen i'r Bwrdd Iechyd:

- Gytuno ar ddulliau i alluogi arweinwyr timau nyrsio ardal Band 7 i gael amser wedi'i ddiogelu rhag ymgymryd â dyletswyddau gweithredol, a fydd yn eu galluogi i fynd ati'n rhagweithiol i reoli eu llwyth achosion, goruchwylio a chynorthwyo staff, ac arwain eu timau. Fel rhan o hyn, gweithredu dulliau sy'n galluogi arweinwyr tîm ar draws y Bwrdd Iechyd i rannu arferion da yn rheolaidd. Bydd diogelu amser arweinwyr timau yn galluogi:
  - llunio proffil o lwyth achosion yn rheolaidd i helpu i wella effeithlonrwydd gwasanaethau drwy dargedu adnoddau at y rhai sydd â'r angen mwyaf a rhyddhau'r rhai nad oes angen y gwasanaeth nyrsio ardal arnynt mwyach o'r llwyth achosion; a
  - chynorthwyo gwell cyswllt a chydweithio â rhanddeiliaid allweddol.
- Defnyddio canlyniadau'r arolwg hwn i:
  - nodi cyfleoedd i ailgydbwyso adnoddau i gyfateb i lwyth gwaith ac anghenion y boblogaeth;
  - ymchwilio i'r amrywiad mewn gweithgaredd nad yw'n ymwneud â chleifion ac ystyried a oes cyfleoedd i ryddhau amser nyrsys ardal i'w cynorthwyo i gyflawni eu rôl mewn rheoli clinigol a thimau; a
  - phenderfynu a ellid defnyddio adnoddau presennol yn wahanol i ddarparu ymyriadau cyffredinol megis triniaeth gwythïen-bigo.
- Er mwyn llywio'r gwaith o gynllunio a defnyddio adnoddau yn y dyfodol, mae angen i'r Bwrdd Iechyd gynnal archwiliad tymor hwy o faint o amser a dreulir ar weinyddu Gofal Iechyd Parhaus mewn gwirionedd.

## Camau gweithredu o ran rheoli'r galw ac atgyfeirio

Dylanwadu ar y galw a'i reoli'n well:

- Diweddaru ac ail-lansio'r meini prawf ar gyfer atgyfeiriadau a chyfleu'r rhain i'r holl atgyfeirwyr.
- Defnyddio'r cerdyn ysgogi i ddatblygu rhestr wirio o wybodaeth i weithredu fel ffurflen atgyfeirio safonol i'w defnyddio ar draws pob ardal Bwrdd Iechyd. Defnyddio'r wybodaeth a gynhyrchwyd i dargedu'r rhai sy'n atgyfeirio'n amhriodol neu'n annigonol.
- Gweithio mewn partneriaeth â meddygon teulu i ddeall yr amrywiad rhwng sut y mae rhai practisau meddygon teulu yn defnyddio'r gwasanaeth nyrsio ardal a phenderfynu ai'r nyrsys ardal yw'r adnodd mwyaf priodol i ddiwallu'r anghenion hynny.

## Camau gweithredu o ran gwybodaeth

O ran cryfhau monitro perfformio a rheoli'r gwasanaeth nyrsio ardal:

- defnyddio canfyddiadau'r adolygiad hwn fel y llinell sylfaen a'r catalydd ar gyfer rheoli'r gwasanaeth yn fwy effeithiol;
- datblygu ystod ehangach o fesurau ansawdd a diogelwch sy'n cael eu monitro'n rheolaidd ac yr adroddir ac y gweithredir arnynt yn rheolaidd;
- cyfrannu'n weithredol at waith Offeryn Aciwtedd Nyrsio Cymunedol Cymru gyfan a dylanwadu arno; a
- gwella ansawdd gwybodaeth drwy fynd i'r afael â'r gwahaniaethau sy'n bodoli rhwng y gwahanol ffynonellau o wybodaeth am y gweithlu a dileu'r gwahaniaethau hynny.

# Atodiad 1

## Dull archwilio

Nod yr archwiliad oedd ateb y cwestiwn:

**A yw gwasanaeth nyrsio ardal y Bwrdd Iechyd wedi'i sefydlu'n effeithiol i ddiwallu'r galw am ofal yn y gymuned?**

Yn benodol, archwiliwyd:

- a yw nodau a diben y gwasanaeth yn glir;
- a yw adnoddau nyrsio ardal yn cael eu defnyddio'n effeithiol;
- a yw'r galw am wasanaethau yn cael ei reoli'n dda;
- a yw staff yn cael eu defnyddio'n effeithiol; ac
- a oes gwybodaeth gadarn ar gael i fonitro ansawdd a pherfformiad y gwasanaeth.

Cynhaliwyd nifer o weithgareddau archwilio rhwng mis Gorffennaf a mis Hydref 2013 i fynd i'r afael â'r cwestiynau hyn. Nodir y gweithgareddau archwilio yn y tabl isod. Sylwer bod pob gweithgaredd archwilio wedi'i gynnal mewn wythnosau olynol er mwyn lleihau effaith un gweithgaredd ar y llall.

| Gweithgaredd archwilio | Diben |
|---|---|
| **1. Arolwg o lwyth achosion** | Gofynnwyd i arweinwyr timau nyrsio ardal y 27 o dimau craidd adolygu eu llwyth achosion gweithredol (hy, dim ond cleifion a welwyd yn ystod y chwe mis diwethaf). Roedd hyn yn golygu bod pob arweinydd tîm yn llenwi ffurflen arolwg ar wahân am bob claf. Nod yr arolwg oedd ceisio cael gwybodaeth am amlder ymweliadau, yr amser yr oedd claf ar lwyth achosion, hyd yr ymweliad, lleoliad y gofal, mathau o ofal a ddarparwyd ac a oedd cleifion yn cael gofal o weithwyr proffesiynol iechyd neu ofal cymdeithasol eraill.<br>Llenwyd dros 7,093 o ffurflenni arolwg ar gyfer y llwyth achosion gweithredol. |
| **2. Darpar arolwg o atgyfeiriadau i'r gwasanaeth** | Diben yr arolwg hwn oedd cael gwybodaeth am natur yr atgyfeiriadau, ansawdd y wybodaeth atgyfeirio a phriodoldeb canfyddedig atgyfeiriadau i'r timau nyrsio ardal. Cwblhaodd pob tîm arolwg ar gyfer pob atgyfeiriad newydd a gafwyd dros gyfnod o wythnos ym mis Gorffennaf 2013 a arweiniodd at ymweliad wyneb yn wyneb neu alwad ffôn. Diffiniwyd atgyfeiriad newydd fel atgyfeiriad ar gyfer claf nad oedd yn cael gofal nyrsio ardal rheolaidd ar y pryd.<br>Llenwyd 590 o ffurflenni arolwg atgyfeirio. |

| Gweithgaredd archwilio | Diben |
|---|---|
| **3. Dyddiadur llwyth gwaith unigol** | Gofynnwyd i'r holl staff a oedd yn gweithio fel rhan o'r tîm nyrsio ardal adeg yr archwiliad i lenwi dyddiadur gweithgarwch saith diwrnod, gan gynnwys y timau gyda'r hwyr. Cynlluniwyd y dyddiadur i ddarganfod faint o amser y mae timau nyrsio ardal yn ei dreulio ar wahanol fathau o weithgaredd yn ogystal â nifer a natur cysylltiadau â chleifion.<br>Dychwelwyd tri chant o ddyddiaduron wedi'u llenwi. |
| **4. Arolwg casglu data** | Cynlluniwyd yr arolwg casglu data i gasglu gwybodaeth gan yr arweinwyr timau am nifer y staff a nifer y staff cyfwerth ag amser llawn, y math o weithgaredd gofal yr oedd staff nyrsio wedi'u hyfforddi i'w ddarparu a'r nifer sy'n ymgymryd â'r gweithgaredd hwn.<br>Llenwyd dau ddeg naw o ffurflenni (gan gynnwys dwy ffurflen ar gyfer y timau gyda'r hwyr). |
| **5. Gweithdai gydag arweinwyr timau a rheolwyr** | Defnyddiwyd y gweithdai hyn i gyflwyno'r canfyddiadau o'r gweithgarwch archwilio yr oedd y timau wedi cyfrannu atynt ac er mwyn trafod goblygiadau'r canfyddiadau. |
| **6. Gweithdy gyda'r uwch dîm rheoli nyrsys** | Defnyddiwyd y gweithdy hwn i roi crynodeb o'r dystiolaeth a'r canfyddiadau yng nghyd-destun datblygu'r gwasanaeth a lle roedd angen i'r Bwrdd Iechyd wneud rhagor o waith. |

# Atodiad 2

## Cyflwyno’r canfyddiadau allweddol

Mae’r tudalennau sy’n dilyn yn cynnwys sleidiau, tystiolaeth a chanfyddiadau’r cyflwyniad a oedd yn deillio o allbynau’r gwaith a gweithdai archwilio.

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Mawrth 2014

# Adolygiad o Wasanaethau Nyrsio Ardal

Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

# Cefndir

- Mae nyrsys ardal yn un o brif ddarparwyr gofal iechyd mewn cartrefi cleifion.
- Mae'r galw am wasanaethau nyrsio ardal wedi bod yn cynyddu a rhagwelir y bydd yn parhau i gynyddu.
  - un o bob pedwar o gleifion cofrestredig yn byw mewn ardaloedd sydd yn y pumed â'r amddifadedd mwyaf yng Nghymru; a
  - rhagwelir y bydd nifer y bobl sy'n 65 oed a throsodd yn cynyddu 31% rhwng 2011 a 2026
- Mae darparu gofal yn agosach at gartrefi pobl yn ei gwneud yn ofynnol cael gweithlu cymunedol medrus sy'n cael adnoddau priodol ac sy'n cael ei ddefnyddio'n effeithiol, ond eto mae adolygiadau nyrsio ardal blaenorol wedi dangos amrywiad o ran y ffordd y mae llwyth achosion nyrsio yn cael adnoddau a'r modd y'u rheolir.
- Gydag amrywiaeth o staff proffesiynol arall yn darparu gofal yn y gymuned, mae angen dealltwriaeth dda ar y Bwrdd Iechyd o'i wasanaeth nyrsio ardal a sut y'i defnyddir fel rhan o'i ddull ehangach o ddatblygu gwasanaethau cymunedol.

# Nodau'r archwiliad

**Y prif gwestiwn: A yw gwasanaeth nyrsio ardal y Bwrdd Iechyd wedi'i sefydlu'n effeithiol i ddiwallu'r galw am ofal yn y gymuned?**

- A yw nodau a diben y gwasanaeth yn glir?
- A yw adnoddau nyrsio ardal yn cael eu defnyddio'n effeithiol?
- A yw'r galw am wasanaethau'n cael ei reoli'n dda?
- A oes gwybodaeth gadarn ar gael i fonitro ansawdd a pherfformiad y gwasanaeth?

[Dull archwilio: Cyfweliadau, adolygu dogfennau, ymarfer dyddiadur, adolygu llwyth achosion, arolygon atgyfeirio a gweithdai wedi'u hwyluso]

# Casgliad cyffredinol

**Daethom i'r casgliad canlynol:**

Mae amrywiad anesboniadwy yn y gwasanaeth nyrsio ardal o ran yr adnoddau a'r llwyth gwaith a cheir hefyd wendidau mewn systemau gwybodaeth sy'n ei gwneud yn anodd asesu perfformiad, capasiti a galw.

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Is-gasgliadau

1. **Nodau'r gwasanaeth:** Mae rhai camau cadarnhaol wedi'u cymryd i hyrwyddo gwell dealltwriaeth o wasanaethau nyrsio ardal ond nid yw ffiniau'r rôl yn cael eu deall bob tro ac nid yw cyfleoedd i symleiddio ac integreiddio gofal yn well yn cael eu gwireddu.
2. **Lleoli nyrsys ardal:** Mae'r ddealltwriaeth gyfyngedig o'r galw yn ei gwneud yn anodd asesu a oes digon o gapasiti, ac mae'n arwain at amrywiad sylweddol o ran darparu adnoddau a llwyth gwaith anghyson rhwng timau.
3. **Rheoli'r galw ac atgyfeirio:** Mae'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu siartiau llif i wella atgyfeiriadau i nyrsys ardal ond erys problemau o ran ansawdd a phriodoldeb yr atgyfeiriadau.
4. **Gwybodaeth am fonitro perfformiad:** Mae absenoldeb system wybodaeth yn golygu nad yw'r Bwrdd Iechyd yn gallu asesu'r galw yn effeithiol a phenderfynu ar ei ofynion o ran y gweithlu nyrsio ardal er mwyn llywio'r defnydd o staff.

# Nodau'r gwasanaeth

Mae rhai camau cadarnhaol wedi'u cymryd i hyrwyddo gwell dealltwriaeth o wasanaethau nyrsio ardal ond nid yw ffiniau'r rôl yn cael eu deall bob tro ac nid yw cyfleoedd i symleiddio ac integreiddio gofal yn well yn cael eu gwireddu.

# Nodau'r gwasanaeth

a. Mae Strategaeth Nyrsio a Bydwreigiaeth y Bwrdd Iechyd yn mynegi'n glir y symudiad tuag at fodel integredig o ofal sy'n canolbwyntio ar y gymuned ond nid yw'n glir sut y mae gwasanaethau nyrsio ardal yn cydweddu â'r model hwn ac nid yw cyfleoedd i symleiddio gofal a'i integreiddio'n well yn cael eu gwireddu.

- Mae'r Strategaeth yn mynegi'n glir y symudiad tuag at fodel sy'n canolbwyntio ar y gymuned ac sy'n integredig ond nid yw'n glir sut y mae gwasanaethau nyrsio ardal yn cydweddu â'r model hwn.
- Dywedodd y staff nyrsio ardal fod integreiddio â gwasanaethau cymunedol eraill yn wael ac nad oeddent yn aml yn ymwybodol o'r ymyriadau a gynigir gan wasanaethau eraill i'w cleifion.
- Dywedodd staff fod gorgyffwrdd o ran y math o ofal a ddarperir gan dimau nyrsio ardal a gwasanaethau cymunedol eraill fel y tîm adnoddau cymunedol.
- Dywedodd y gwasanaethau nyrsio ardal eu bod yn darparu ystod eang o ofal i gleifion o gymharu â gwasanaethau cymunedol eraill sydd â ffocws culach ond sy'n  fwy arbenigol yn gyffredinol. Eto, ceir diffyg eglurder ynghylch pwy ddylai weithredu fel cydgysylltydd gofal claf ac nid oes cytundeb cyffredinol o ran beth mae hyn yn ei olygu yn ymarferol.

# Nodau'r gwasanaeth

**b.** Nododd manyleb gwasanaeth ac ymgyrch bosteri gydrannau craidd y gwasanaeth nyrsio ardal, ond mae adolygiad o'r fanyleb yn hirddisgwyliedig a dim ond mewn dwy o'r pum ardal y defnyddir y posteri

- Roedd y fanyleb glir a defnyddiol a ddatblygwyd ym mis Mai 2011 yn cynnwys nifer o feysydd i'w datblygu. Nid oes unrhyw rai o'r rhain wedi'u cwblhau ac mae angen diweddaru'r fanyleb. Nododd y Bwrdd Iechyd fod gwaith wedi'i ohirio nes y cyhoeddir canlyniadau'r archwiliad hwn a gwaith ehangach ar lefel Cymru gyfan.
- Mae'r ymgyrch bosteri yn crynhoi'r hyn y mae nyrs ardal yn ei wneud ac yn amlinellu cyfansoddiad y tîm ond dim ond mewn dwy ardal y'i defnyddir.

# Nodau'r gwasanaeth

C. Mae lle o hyd i wella dealltwriaeth y sectorau gofal sylfaenol ac eilaidd o wasanaethau nyrsio ardal.

- Mae ystod y gwasanaethau cymunedol yn ddryslyd i staff wardiau ac mae angen gwell cyfathrebu am rôl y gwasanaeth.
- Ceir amrywiadau o ran y math o weithgaredd y mae practisau meddygon teulu yn disgwyl i wasanaethau nyrsio ardal eu darparu ond mae rhai arweinwyr tîm yn 'rheoli'r' berthynas â'r practis meddyg teulu yn dda.
- Yn wahanol i dimau adnoddau cymunedol, nid yw staff nyrsio ardal yn cael eu gwahodd yn rheolaidd i fynychu cyfarfodydd amlddisgyblaethol am gleifion.

# Y defnydd o nyrsys ardal

**Mae'r ddealltwriaeth gyfyngedig o'r galw yn ei gwneud yn anodd asesu a oes digon o gapasiti, ac mae'n arwain at amrywiad sylweddol o ran darparu adnoddau a llwyth gwaith anghyson rhwng timau.**

# Y defnydd o nyrsys ardal

a. Mae patrymau newidiol y gwasanaeth nyrsio cymunedol a'r gwahaniaethau rhwng y ffynonellau amrywiol o wybodaeth am y gweithlu yn ei gwneud yn anodd deall tueddiadau o ran lefelau staffio.

b. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud llawer o waith i ddeall sgiliau ac anghenion hyfforddiant y gweithlu nyrsio ardal.

c. Ceir dealltwriaeth gyfyngedig o'r galw ac nid yw adnoddau'n cael eu cysoni'n glir ag anghenion y boblogaeth.

ch. Mae'r llwyth gwaith wedi'i ddosbarthu'n anghyson rhwng timau nyrsio ardal unigol ond gallai'r galw gael ei reoli'n well gan rai timau nyrsio ardal.

# Y defnydd o nyrsys ardal

a. Mae patrymau newidiol y gwasanaeth nyrsio cymunedol a'r gwahaniaethau rhwng y ffynonellau amrywiol o wybodaeth am y gweithlu yn ei gwneud yn anodd deall tueddiadau o ran lefelau staffio nyrsys ardal.

- Caiff adnoddau eu cynllunio ar sail hanesyddol.
- Awgrymodd adolygiad gan y Coleg Nyrsio Brenhinol yn 2009 fod adnoddau nyrsio ardal wedi'u disbyddu; er y buddsoddwyd yn y gwasanaeth, mae data diweddar am y gweithlu yn awgrymu mai prin fu'r newid o ran nifer y gweithlu o gymharu â'r niferoedd a oedd yn eu swyddi yn 2009.
- Mae gwybodaeth cyfriflyfr y Bwrdd Iechyd yn wahanol i'r data a ddarparwyd i Swyddfa Archwilio Cymru gan dimau nyrsio ardal unigol.
  - Gall staff yn symud i mewn neu allan o linellau cyllideb gyfrif am y gwahaniaethau hyn ond mae'n ei gwneud yn anodd dadansoddi tuedd.

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Y defnydd o nyrsys ardal

*Capasiti'r gweithlu parhad*

- Mae newidiadau i batrwm gwasanaethau nyrsio cymunedol, a chyflwyno gwasanaethau Eiddilwch Gwent yn cymhlethu cymhariaeth uniongyrchol rhwng lefelau staffio'r presennol a'r gorffennol.
- Ni wnaeth cyfranogwyr y gweithdai nodi'r cynnydd yn nifer y staff nyrsio ardal a staff clercio; ond roedd y cynnydd yn y niferoedd yn fach a gall fod yn anweladwy i dimau unigol.
- Mae'r staff yn gweld bod y galw am wasanaethau yn fwy na'r cyflenwad a bod dibyniaeth cleifion yn cynyddu ond nad yw'r adnoddau yn symud i'r gymuned i gynorthwyo cleifion a chanddynt anghenion mwy cymhleth.
- Nododd y staff nad oes unrhyw hyblygrwydd yn y system ac mai prin oedd eu gallu a'u hadnoddau i helpu timau eraill. Fodd bynnag, roeddent hefyd o'r farn bod ymdrech yn cael ei dyblygu ar draws y gwasanaethau cymunedol ehangach.
- Mae'r gymhareb o staff nyrsio cofrestredig i weithwyr cymorth gofal iechyd yn debyg ar draws yr ardaloedd ac eithrio ardal Torfaen lle roedd cyfran lai o nyrsys cofrestredig (gweler sleid 14).

# Y defnydd o nyrsys ardal

Mae'r gymhareb o nyrsys ardal cofrestredig a nyrsys ardal heb eu cofrestru yn debyg yn fras ond ceir cyfran is o nyrsys cofrestredig yn Nhorfaen o gymharu â'r ardaloedd eraill (*yn seiliedig ar wybodaeth arolwg a gyflwynwyd ar gyfer yr archwiliad hwn*)

| Ardal | Cyfanswm cyfwerth ag amser cyflawn cofrestredig (mewn swyddi a swyddi gwag) | Cyfanswm cyfwerth ag amser cyflawn heb gofrestru (ac eithrio staff gweinyddol) | Cyfanswm nifer y staff nyrsio | Cymhareb o nyrsys cofrestredig i nyrsys heb eu cofrestru |
|---|---|---|---|---|
| **Blaenau Gwent** | 42.80 | 4.42 | 47.22 | 90: 10. |
| **Caerffili** | 69.85 | 10.70 | 80.55 | 85:15. |
| **Sir Fynwy** | 40.84 | 3.46 | 44.30 | 91:9 |
| **Casnewydd** | 55.95 | 5.41 | 61.36 | 91: 9 |
| **Torfaen** | 40.09 | 8.72 | 48.81 | 78: 22 |

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Y defnydd o nyrsys ardal

b. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud llawer o waith i ddeall sgiliau ac anghenion hyfforddiant y gweithlu nyrsio ardal.

- Mae dyblygu rhwng timau nyrsio ardal a gwasanaethau cymunedol eraill yn awgrymu bod angen eglurder ynghylch pa sgiliau sydd eu hangen yn y gymuned a phwy ddylai eu darparu.
- Mae sgiliau'r gweithlu nyrsio gofal sylfaenol yn anhysbys ond mae bylchau canfyddedig yn eu sgiliau a'u harfer ynghyd â sgiliau ehangach y gweithlu yn effeithio ar y gweithlu nyrsio ardal.
- Mae rhai aelodau o staff yn teimlo ei bod yn mynd yn fwy anodd cael mynediad i hyfforddiant oherwydd anawsterau o ran cael eu rhyddhau i ddilyn hyfforddiant neu i ôl-lenwi swyddi.
- Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cynnal asesiad llinell sylfaen o'r sgiliau nyrsio ardal ac wedi nodi'r meysydd blaenoriaeth allweddol sy'n cynnwys llwybrau gradd i nyrsys cymunedol, rheoli diabetes a llwybrau diwedd bywyd. Mae rolau gweithwyr cymorth gofal iechyd ym mandiau 3 a 4 wedi'u diffinio'n glir ac mae fframwaith cymhwysedd wedi'i weithredu'n llawn.
- Ceisiodd yr archwiliad gael gwybodaeth am y math o weithgareddau gofal roedd staff wedi'u hyfforddi i'w darparu e.e. pibellu neu weinyddu cyffuriau mewnwythiennol:
  - Yn gyffredinol mae'r rhai sydd wedi'u hyfforddi hefyd yn ymarfer y sgiliau hyn yn rheolaidd; ond ceir gwahaniaethau - nid yw timau yng Nghasnewydd a Blaenau Gwent yn darparu gwasanaethau mewnwythiennol er eu bod wedi'u hyfforddi i wneud hynny oherwydd mai'r timau adnoddau cymunedol sy'n darparu'r gweithgaredd gofal hwn. Mae'r amrywiad hwn o ran ymarfer yn ddryslyd i staff sy'n atgyfeirio ac mae hefyd yn effeithio ar sut y mae staff nyrsio ardal yn cynnal eu cymhwysedd.

# Y defnydd o nyrsys ardal


C. Ceir dealltwriaeth gyfyngedig o'r galw ac nid yw adnoddau'n cael eu cysoni'n glir ag anghenion y boblogaeth.

- Ni cheir gwybodaeth hygyrch am nifer y cleifion yn y llwyth achosion, eu dibyniaeth a'u hanghenion gofal.
- Mae llwythi achosion yn amrywio rhwng ardaloedd (tabl isod).

| Ardal | Nifer y cleifion a "welir yn weithredol" fesul staff cyfwerth ag amser cyflawn yn eu swydd |
|---|---|
| Blaenau Gwent | 26 |
| Caerffili | 31 |
| Sir Fynwy | 25 |
| Casnewydd | 24 |
| Torfaen | 23 |
| **Bwrdd Iechyd** | **23** |
| Cleifion a welir yn weithredol yw'r cleifion hynny yn y llwyth achosion a welwyd yn y chwe mis diwethaf. | |

# Y defnydd o nyrsys ardal

Mae llwythi achosion yn amrywio'n sylweddol o fewn ardaloedd.




Adolygiad o Wasanaethau Nyrsio Ardal

# Y defnydd o nyrsys ardal

- Mae diffyg offeryn dibyniaeth yn ei gwneud yn fwy anodd sicrhau bod adnoddau'n cyd-fynd ag angen; a nododd staff nyrsio ardal fod aciwtedd a dibyniaeth yn cynyddu, gan arwain at lwyth achosion trwm.
- Nid yw nifer y staff nyrsio ardal yn cyd-fynd yn glir ag anghenion y boblogaeth.
- Mae mesurau procsi a ddefnyddiwyd i benderfynu ar y galw a'r angen (sleid 19) yn dangos:
  - lefelau uwch o iechyd gwael a chyfyngiadau a hunanbennwyd mewn tair o ardaloedd y Bwrdd Iechyd; ac
  - eto camgyfatebiaeth amlwg ym maint y llwyth achosion a'r adnoddau sydd ar gael o ystyried y proffil oedran ac anghenion ar draws yr ardaloedd.

# Y defnydd o nyrsys ardal

| | Blaenau Gwent | Caerffili[3] | Sir Fynwy | Casnewydd[4] | Torfaen | Bwrdd iechyd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Canran y boblogaeth 65 oed a hŷn [1]** | **18.5%** | **17.3%** | **21.9%** | **16.8%** | **18.6%** | **18.2%** |
| Staff nyrsio ardal cyfwerth ag amser cyflawn yn eu swydd (gan gynnwys staff gyda'r hwyr) y pen o'r boblogaeth 65 oed a hŷn[2] | 3.6 | 2.5 | 2.1 | 2.4 | 2.8 | 2.6 |
| Nifer y cleifion cofrestredig 65 oed neu hŷn fesul staff nyrsio ardal cyfwerth ag amser cyflawn yn eu swydd[5] | 39.7 | 26.4 | 24.6 | 26.7 | 28.4 | 30.4 |
| Canran trigolion Cymru sy'n asesu bod statws eu hiechyd cyffredinol yn wael neu'n wael iawn [6] | 10.7% | 9.3% | 5.9% | 7.4% | 8.7% | 7.6% Cyfartaledd Cymru |
| Canran trigolion Cymru y mae eu gweithgarwch o ddydd i ddydd wedi'i gyfyngu llawer neu ychydig [6] | **27.2%** | **25.4%** | **20.1%** | **20.8%** | **24.1%** | **22.7% Cyfartaledd Cymru** |

1 Llywodraeth Cymru, StatsCymru, Amcangyfrifon Poblogaeth Canol Blwyddyn fesul awdurdod lleol, fel ar Fehefin 2013.
2 Amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn a ddefnyddiwyd.
3 Mae un tîm yn darparu gofal i gleifion a gofrestrir gyda 2 bractis meddyg teulu yng Nghwm Taf.
4 Mae un tîm yn darparu gofal i gleifion a gofrestrir gyda 5 practis meddyg teulu yng Nghaerdydd a'r Fro.
5 Mae'r ffigurau hyn yn eithrio practisau meddyg teulu y tu allan i ffiniau'r Bwrdd Iechyd.
6 Cyfrifiad 2011.

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Y defnydd o nyrsys ardal

Canfu ein dadansoddiad o'r llwyth achosion fod:

- Ychydig dros 7,000 o gleifion yn cael eu gweld yn 'weithredol' (h.y. eu gweld yn ystod y chwe mis diwethaf); caiff 1,100 o gleifion ychwanegol eu gweld yn llai aml.
- 39% o gleifion yn cael ymweliad unwaith yr wythnos neu'n amlach, 20% unwaith y mis, 25% bob dau i dri mis a 9% bob pedwar i chwe mis.
- 50% o gleifion wedi bod ar y llwyth achosion ers mwy na blwyddyn (33% am fwy na dwy flynedd)
  - Dywedodd staff wrthym nad yw llwyth achosion byth yn cau a disgrifir llwyth achosion fel elastig sy'n rhoi'r staff o dan bwysau sylweddol. Er hynny, canfu ein hadolygiad fod rhai timau yn fwy effeithiol o ran rhyddhau cleifion o'r llwyth achosion gan leihau'r pwysau.
- 70% o gleifion ar y llwyth achosion yn 75 oed a hŷn.
- 47% o gleifion ar y llwyth achosion yn byw ar eu pen eu hunain.
- 99% o gleifion yn cael gofal yn eu cartref eu hunain.

# Y defnydd o nyrsys ardal

*Proffil llwyth achosion parhad …*

- 97% o gleifion yn cael ymweliad unigol (hyd yn oed y rhai â phecynnau gofal/ymyriadau lluosog).
- 39% o gleifion yn cael un pecyn gofal/ymyriad – triniaeth gwythïen-bigo, gofal ar gyfer problemau wrinol a rheoli clwyfau yw'r mwyaf cyffredin fel arfer:
  - mae 30% o gleifion yn cael dau becyn gofal/ymyriad, gyda thros hanner y cleifion hyn yn cael triniaeth gwythïen-bigo, ynghyd â gofal ar gyfer naill ai problemau cardiaidd, yr angen am bigiadau, problemau ymataliaeth, briwiau ar y coesau neu salwch acíwt; ac
  - mae gan 5% o gleifion fwy na phum pecyn gofal/ymyriadau.
- Staff nyrsio ardal yn 'gweithredu' fel rheolwyr achos ar gyfer 85% o gleifion.
- 51% o gleifion yn cael o leiaf un ymyriad gan wasanaeth nyrsio cymunedol arall; roedd y gyfran fwyaf ar gyfer gofal lliniarol:
  - ond nid oedd yr holl arweinwyr tîm yn glir ynghylch y gwasanaethau iechyd neu ofal cymdeithasol eraill roedd cleifion yn eu derbyn, hyd yn oed pan oedd cleifion yn cael eu gweld yn aml.

# Y defnydd o nyrsys ardal

a. Mae'r llwyth gwaith wedi'i ddosbarthu'n anghyson rhwng timau nyrsio ardal unigol ond er y gallai'r galw gael ei reoli'n well gan rai timau nyrsio ardal.

- mae'r amser a dreulir ar ofal uniongyrchol ac anuniongyrchol i gleifion yn amrywio yn ôl ardal gyda thimau Sir Fynwy yn treulio'r swm lleiaf o amser ar weithgaredd sy'n gysylltiedig â chleifion;
- mae cyfran yr amser a dreulir ar ofal uniongyrchol ac anuniongyrchol i gleifion yn lleihau gyda statws cynyddol staff nyrsio ardal;
- mae'r rhan fwyaf o gysylltiadau â chleifion yn rhai wyneb yn wyneb ond mae uwch staff nyrsio ardal yn gwneud cyfran gynyddol o gysylltiadau dros y ffôn;
- mae'r amser a dreulir ar weithgarwch gofal i'r rhai nad ydynt yn gleifion yn amrywio'n sylweddol yn ôl ardal; ac
- adeg ein harchwiliad roedd yr amser a dreuliwyd ar weinyddu Gofal Iechyd Parhaus yn sylweddol is na'r disgwyl.

# Y defnydd o nyrsys ardal


Adeg ein harchwiliad, cafodd y staff nyrsio ardal 11,114 o gysylltiadau â chleifion:

- Roedd 321 (3%) o'r cysylltiadau hyn yn 'alwadau dim mynediad' ond mae'r gyfran yn llawer uwch ar gyfer rhai timau sy'n lleihau'r amser cynhyrchiol sydd ar gael i gleifion eraill;
- cynhaliwyd 86% o gysylltiadau yn ystod yr wythnos;
- roedd 520 (5%) o'r cysylltiadau hyn yn gysylltiadau 'gyda'r hwyr'; ac
- mae'r rhan fwyaf o gysylltiadau yn rhai wyneb yn wyneb; gwneir 11% o gysylltiadau dros y ffôn gyda'r cyfrannau mwyaf yn cael eu gwneud gan uwch staff nyrsio.

| Band cyflog | Cyfran y cysylltiadau dros y ffôn |
|---|---|
| Bandiau 3 a 4 | 5% |
| Bandiau 5 | 7% |
| Bandiau 6 | 30% |
| Bandiau 7 | 41% |
| Bwrdd iechyd | 11% |


# Y defnydd o nyrsys ardal

Ceir amrywiadau yn y nifer cyfartalog o gysylltiadau â chleifion rhwng ac o fewn ardaloedd.



# Y defnydd o nyrsys ardal

Yr amser cyfartalog a dreulir ar ofal uniongyrchol i gleifion yw 25.4 munud ond mae'n amrywio rhwng timau mewn ardaloedd; nid yw'n ymddangos bod hyn yn gysylltiedig â chyfran y cysylltiadau dros y ffôn a wneir.



# Y defnydd o nyrsys ardal

Mae'r amser a dreulir ar ofal uniongyrchol ac anuniongyrchol i gleifion yn amrywio yn ôl ardal gyda thimau Sir Fynwy yn treulio'r swm lleiaf o amser ar weithgareddau sy'n gysylltiedig â chleifion

| BILI | Gofal uniongyrchol i gleifion | Gofal anuniongyrchol i gleifion | | | | Cyfran yr amser ar ofal uniongyrchol ac anuniongyrchol i gleifion |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Gweinyddol - cleifion | Teithio sy'n gysylltiedig â chleifion | Galwadau dim mynediad | Gofal Iechyd Parhaus | |
| Blaenau Gwent | 56% | 8% | 11% | 1% | 3% | 79% |
| Caerffili | 55% | 11% | 16% | 1% | 0% | 83% |
| Sir Fynwy | 43% | 17% | 12% | 1% | 2% | 75% |
| Casnewydd | 53% | 18% | 13% | 0% | 2% | 87% |
| Torfaen | 53% | 11% | 11% | 1% | 1% | 77% |
| BILI | 52% | 13% | 13% | 1% | 1% | 81% |


# Y defnydd o nyrsys ardal

Mae cyfran yr amser a dreulir ar ofal uniongyrchol ac anuniongyrchol i gleifion yn lleihau gyda statws cynyddol staff nyrsio.

| BILI | Gofal uniongyrchol i gleifion | Gofal anuniongyrchol i gleifion | | | | Cyfran yr amser ar ofal uniongyrchol ac anuniongyrchol i gleifion |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Gweinyddol - cleifion | Teithio sy'n gysylltiedig â chleifion | Galwadau dim mynediad | Gofal Iechyd Parhaus | |
| Bandiau 3 a 4 | 57% | 9% | 16% | 1% | 0% | 83% |
| Band 5 | 58% | 12% | 15% | 1% | 0% | 86% |
| Band 6 | 39% | 19% | 9% | 1% | 3% | 71% |
| Band 7 | 24% | 17% | 5% | 0% | 10% | 57% |
| BILI | 52% | 13% | 13% | 1% | 1% | 81% |

# Y defnydd o nyrsys ardal

Er bod y gyfran gyffredinol o amser a dreulir ar weinyddu gofal iechyd parhaus yn fach iawn, treuliodd staff Band 7 10% o'u hamser ar y gweithgaredd hwn ond roedd hyn yn amrywio rhwng timau.



# Lleoli nyrsys ardal

Mae'r amser a dreulir ar ofal nad yw'n ofal cleifion yn amrywio'n sylweddol yn ôl ardal gyda Chasnewydd yn treulio'r swm lleiaf o amser ar weithgareddau sy'n gysylltiedig ar ofal nad yw'n ofal cleifion.

| BILl | Cyfran yr amser ar ofal uniongyrchol ac anuniongyrchol i gleifion | Gofal nad yw'n ymwneud â chleifion (teithio sy'n gysylltiedig â gofal nad yw'n ymwneud â chleifion, rheoli proffesiynol a chlinigol, rheoli timau, gweinyddol, dysgu ac addysgu, a gweithgareddau eraill) |
|---|---|---|
| Blaenau Gwent | 79% | 21% |
| Caerffili | 83% | 17% |
| Sir Fynwy | 75% | 25% |
| Casnewydd | 87% | 13% |
| Torfaen | 77% | 23% |
| BILl | 81% | 19% |

# Rheoli'r galw ac atgyfeirio

**Mae'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu siartiau llif i wella atgyfeiriadau i nyrsys ardal ond erys problemau o hyd o ran ansawdd a phriodoldeb yr atgyfeiriadau.**

# Rheoli'r galw ac atgyfeirio

a. Mae siart llif sy'n nodi meini prawf atgyfeirio wedi'i gynnwys ym manyleb y gwasanaeth nyrsio ardal ond mae atgyfeiriadau amhriodol yn parhau i fod yn gymharol gyffredin yn enwedig mewn rhai ardaloedd.

b. Nid oes rhestr wirio safonol o'r wybodaeth sydd ei hangen wrth wneud atgyfeiriad i wasanaethau nyrsio ardal; ystyriwyd mai dim ond 58% o atgyfeiriadau cleifion newydd a oedd yn darparu gwybodaeth ddigonol.

c. Nid oes ffurflen atgyfeirio gyffredin ond mae cerdyn ysgogi i godi ymwybyddiaeth o'r hyn sydd ei angen wedi'i ddatblygu ar gyfer nyrsys ysbytai.

ch. Mae rhai arweinwyr timau yn fwy rhagweithiol nag eraill o ran hyrwyddo atgyfeiriadau priodol a gwybodaeth atgyfeirio o safon uchel.

# Rheoli'r galw ac atgyfeirio

Adeg yr archwiliad, cafwyd 590 o atgyfeiriadau dros gyfnod o wythnos.

- Disgrifiwyd 68 o atgyfeiriadau fel rhai 'amhriodol' oherwydd nad oedd cleifion yn 'gaeth i'w cartrefi' neu gallai gweithwyr iechyd proffesiynol eraill fod wedi darparu eu gofal yn fwy priodol:
  - disgrifiwyd cyfrannau uwch o atgyfeiriadau fel rhai amhriodol gan dimau yn ardaloedd Sir Fynwy (19%) a Chasnewydd (16%);
  - roedd 26 o'r 68 o atgyfeiriadau amhriodol ar gyfer triniaeth gwythïen-bigo;
  - cafwyd 24 o 68 o atgyfeiriadau gan feddygon teulu gydag 16 yn gofyn am driniaeth gwythïen-bigo;
  - nid arweiniodd 45 o blith 68 o atgyfeiriadau at ofal nyrsio ardal parhaus ar ôl yr asesiad cychwynnol; ac
  - atgyfeiriwyd 33 o'r 68 o gleifion at wasanaethau eraill, megis nyrsys practis, meddygon teulu, gwasanaethau cymdeithasol neu nyrsys arbenigol.

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Rheoli'r galw ac atgyfeirio

Ceir bylchau allweddol yn y wybodaeth atgyfeirio i gleifion newydd a geir gan wasanaethau nyrsio ardal.

| Cyfran yr atgyfeiriadau a oedd yn cynnwys gwybodaeth am y canlynol: | |
|---|---|
| natur frys yr atgyfeiriad? | 72% |
| a fyddai angen cyfarpar neu orchuddion? | 51% |
| yr hanes meddygol neu'r diagnosis? | 60% |
| a yw'r claf yn byw ar ei ben ei hun? | 35% |
| sut y byddech yn cael mynediad i gartref y claf? | 35% |
| a oes gan y claf ofalwr? | 29% |
| a oes gweithwyr iechyd proffesiynol eraill yn ymwneud â gofal y claf? | 23% |
| a yw'r gwasanaethau cymdeithasol yn ymwneud â gofal y claf? | 22% |
| a yw'r gwasanaethau gwirfoddol yn ymwneud â gofal y claf? | 9% |

# Rheoli'r galw ac atgyfeirio

Roedd mwyafrif yr atgyfeiriadau gan feddygon teulu ond ceir amrywiadau mawr rhwng rhai ardaloedd (gweler y tabl isod).

| Ardal | Meddyg Teulu | Staff ysbytai | Hunanatgyfeirio/ gofalwr | Gwasanaethau Cymdeithasol | Nyrs arbenigol | Arall |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Blaenau Gwent | 37% | 40% | 7% | 0% | 7% | 10% |
| Caerffili | 59% | 18% | 16% | 1% | 0% | 5% |
| Sir Fynwy | 38% | 18% | 24% | 8% | 5% | 8% |
| Casnewydd | 35% | 19% | 23% | 4% | 6% | 12% |
| Torfaen | 56% | 26% | 15% | 0% | 0% | 3% |
| **Bwrdd iechyd** | **44%** | **20%** | **20%** | **4%** | **4%** | **8%** |

- Ceir y rhan fwyaf o'r atgyfeiriadau yn ystod yr wythnos ond ceir y gyfran uchaf ar ddydd Llun.
- Roedd canfyddiad bod 26% o'r atgyfeiriadau yn atal derbyn claf i'r ysbyty.
- Roedd canfyddiad bod 20% o atgyfeiriadau yn cynorthwyo i ryddhau claf o'r ysbyty yn gynharach.
- Mae lle i wella'r galw am wasanaethau nyrsio ardal:
  - roedd 33% o'r atgyfeiriadau ar gyfer triniaeth gwythïen-bigo; roedd 26% ar gyfer rheoli clwyfau;
  - roedd y rhesymau eraill yn cynnwys ceisiadau am asesiadau cadair olwyn neu chwistrellu clustiau.
- Dywedir bod atgyfeiriadau gan feddygon teulu yn cyrraedd y brig ar adegau penodol o'r flwyddyn neu pan fydd nyrsys practis ar wyliau, gall hyn gael effaith andwyol ar yr adnodd nyrsio.

# Gwybodaeth am fonitro perfformiad

**Mae absenoldeb system wybodaeth yn golygu nad yw'r Bwrdd Iechyd yn gallu asesu'r galw yn effeithiol a phenderfynu ar ei ofynion o ran gweithlu nyrsio ardal er mwyn llywio'r defnydd o staff.**

# Gwybodaeth am fonitro perfformiad

a. Nid oes gan y Bwrdd Iechyd system wybodaeth electronig i'w helpu i ddeall anghenion o ran galw a gofal.

- Nid oes system hygyrch i fonitro nifer y cleifion ar y llwyth achosion, eu dibyniaeth na'u hanghenion gofal; mae cynlluniau'r Bwrdd Iechyd yn defnyddio canfyddiadau'r archwiliad fel llinell sylfaen ar gyfer symud ymlaen.
- Nid oes system i asesu na chategoreiddio dibyniaeth nac angen claf.
- Fel gyda phob rhan o Gymru, mae'r Bwrdd Iechyd yn aros am ddatblygu ateb TG Cymru gyfan a fydd yn cwmpasu anghenion iechyd a gofal cymdeithasol.

b. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu dull o fonitro capasiti ond yn absenoldeb systemau gwybodaeth, nid yw'n gallu penderfynu ar ei ofynion gweithlu yn effeithiol.

- Mae'r Strategaeth Nyrsio a Bydwreigiaeth yn cyfeirio at ddatblygu dull mesur staff nyrsio ardal safonol a fydd yn cael ei brofi yn ystod 2013/14 ond mae'r gwaith hwn wedi'i ohirio wrth i GIG Cymru geisio ateb i Gymru gyfan.

c. Yn debyg i weddill Cymru ceir rhai cyfyngiadau o ran y ffordd y mae'r Bwrdd Iechyd yn asesu ansawdd ei wasanaeth nyrsio ardal.

- Caiff nifer o fesurau ansawdd y gwasanaeth nyrsio ardal eu cofnodi a'u hadrodd yn rheolaidd ond nid yw hyn yn cynnwys profiad y claf.
- Mae GIG Cymru yn bwriadu cyflwyno Archwiliad Hanfodion Gofal ar draws gwasanaethau cymunedol a dylai hyn alluogi profiad y claf ac agweddau ehangach ar ofal I gael eu cofnodi'n rheolaidd.

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk
Website: www.wao.gov.uk

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk